Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 25ain o Dachwedd 2009 am 7.30yh.

Presennol: Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Colin Jenkins, Cyng. Roy Davies, Cyng. Hugh Towns, Cyng. Ieuan Gwyn, Cyng. Edward Thomas, Cyng. Chris Parish, Cyng. Ros Bellamy, Cyng. Richard Wallace, Cyng. Fran Murphy, Cyng. Dawn Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau:

Materion yn ymwneud â'r Heddlu. Fe wnaeth y SCCH Roger Anthony ddatgan y cofnodwyd 5 o droseddau yn ystod y mis. Cafwyd dau ddigwyddiad o natur ddomestig, un lladrad ac un achos o feddiant cyffuriau. O ganlyniad i gydweithrediad rhwng yr Heddlu a thrwyddedigion lleol, cafodd dau berson eu gwahardd o dafarnau yn yr ardal. Diolchodd y Faeres i'r Heddlu am eu cymorth yn ystod yr arddangosiad tân gwyllt ac ar noson cynnau'r goleuadau Nadolig.

Cof 206 / Tach /09 Adroddiad y Cynghorydd Sir.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Ieuan Jones longyfarch y Faeres a'r Cyngor ar ddau ddigwyddiad cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Dref yn ddiweddar.
Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai'r Cyngor Sir yn cael tipyn o drafferth cynnal y lefel bresennol o wasanaeth yn ystod y flwyddyn nesaf, oherwydd y dirwasgiad a'r cynnydd bach yn yr arian a glustnodwyd gan LlCC. Dywedodd ei bod hi'n bosib y byddai swyddi'n cael eu colli petai'n rhaid cwtogi ar wasanaethau. Buasai'r Cyngor Sir yn ystyried p'un ai i ddiffodd goleuadau stryd gyda'r nos, fel rhan o ymarfer cwtogi ar gostau.
Gofynnodd y Cynghorydd Edward Thomas i'r Cyngor Sir i ystyried parcio ceir am ddim dros gyfnod y Nadolig.

Cof 207/ Tach/ 09 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher y 25ain o Hydref 2009, fel cofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:-

Cof 179 / Hyd / 09. Biliau i'w talu ac ychwanegu ffi'r cais am drwydded i gynnal digwyddiad arbennig o £21.

Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 11eg o Dachwedd 2009, fel cofnod cywir, ac fe'u hargymhellwyd i'w derbyn gyda'r diwygiad canlynol:-

Cof 194 / Tach / 09 Gohebiaeth –ychwanegu 10. E-bost y Cyng. Ros Bellamy yn holi a oedd y Cyngor yn mynd i ystyried diffodd rhai o'r goleuadau stryd. Penderfynodd y Cyngor i beidio â bwrw ymlaen â'r mater ar hyn o bryd.

Cynigwyd gan y Cyng. Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar Nos Fercher yr 11eg o Dachwedd 2009, fel cofnod cywir ac fe'u hargymhellwyd i'w derbyn. Cynigwyd gan y Cyng. Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 208 / Tach / 09 Materion yn deillio o gyfarfodydd blaenorol

Parthed â Cof 174 / Hyd / 09. Buasai'r Swyddog Technegol yn gofyn i'r contractwr i ddarparu amcan bris manwl o gost atgyweirio cloc yr eglwys, a fyddai'n cael ei anfon ymlaen i'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones.

Parthed â Cof 176 / Hyd / 09. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas ei fod wedi derbyn cadarnhad ei fod wedi cael ei dderbyn fel llywodraethwr Ysgol GS Llandeilo.

Parthed â chyfarfod Cynllunio 11.11.09. Gofynnodd y Cyng. Roy Davies i eitem i gael ei osod ar agenda cyfarfod Cynllunio Ionawr, mewn perthynas â sefyllfa'r Cyngor parthed â'r orsaf reilffordd.

Parthed â Cof 193/ Tach/09. Cyfarfu'r Cyng. Roy Davies â chontractwr posib, a oedd wedi addo rhoi amcan bris o gostau'r prosiect erbyn diwedd yr wythnos.

Cof 209 / Tach / 09 Gohebiaeth sy'n galw am ymateb

1. Cynllun Gwella CSG 2009-10. Cytunwyd y byddai'r Faeres, y Dirprwy Faer a'r Cadeirydd Cynllunio yn cwblhau'r holiadur.
2. Swyddog Blaengynllunio CSG Jon Timothy, i gydnabod ei fod wedi derbyn arsylwadau'r Cyngor ar y Briff Datblygu'r Gogledd. Nodwyd. Gofynnwyd i'r Clerc i ofyn i'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones pryd fyddai'r mater yn cael ei ystyried gan CSG.
3. Sam Winter parthed â'r Farchnad Ffermwyr. Angen i'r Clerc i ateb gyda manylion am y farchnad wythnosol yn y prif faes parcio a'r farchnad Wledig a gynhelir yn y Neuadd Ddinesig. Doedd y Cyngor ddim yn ymwybodol o siarter marchnad gyfredol.
4. Swyddog Cynllunio CSG Kevin Phillips - ateb gyda chopi o ardaloedd cadwraeth y Dref. Bydd y Clerc yn ei arddangos ar Hysbysfwrdd y Cyngor. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas y dylai'r Clerc gysylltu ag Eifion Bowen, Swyddog Cynllunio CSG, i ofyn a ellir hysbysu'r holl berchenogion tai yn yr ardaloedd cadwraeth o'r cyfyngiadau ar gynllunio. Fe wnaeth y Cyng. Richard Wallace eilio'r cynnig. Roedd pawb o blaid. Hefyd, gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu ag Ian Thomas, swyddog CSG, i ymholi ydi'r Cynllun Treftadaeth Treflun yn bodoli o hyd.
5. LlCC – Cyfarfod cyhoeddus parthed â strategaethau newydd ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg. Nodwyd. Roedd y Clerc wedi ateb yn mynegi pryderon na fyddai unrhyw gyfarfod yn cael ei gynnal yn Ne Orllewin Cymru.
6. Grant Gwella Pentrefi CSG. Gofynnwyd i'r Clerc i gysylltu â'r wasg leol, gyda pharagraff i hysbysu trigolion lleol o'r cynllun.
7. Heddlu Dyfed Powys parthed â blaenoriaethau Plismona ar gyfer 2010-2013. Gofynnwyd i'r Clerc i ateb gyda'r tair blaenoriaeth ganlynol
   i) Hygyrchedd i'r Heddlu
   ii) Gweledded yr Heddlu yn y gymuned
   iii) Troseddau'n gysylltiedig â chyffuriau.

8. Anfonodd y Cyng. Roy Davies lythyr o ymddiswyddiad fel Llywodraethwr Ysgol Teilo Sant am resymau personol. Diolchwyd i'r Cyng. Davies am ei wasanaeth fel Llywodraethwr.

Cynigwyd y Cyng. Julia Jones fel Llywodraethwraig gan y Cyng. Edward Thomas ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 210 / Tach/ 09 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. CSG parthed â choed mewn ardaloedd cadwraeth. Nodwyd.
2. Cais am wirfoddolwyr gan y WRVS. Nodwyd.
3. Gwahoddiad i gyngerdd Hosbis Caerfyrddin. Nodwyd.
4. Cylchgrawn Chwarae dros Gymru LlCC. Bydd y Cyng. Fran Murphy a'r Cyng. Ros Bellamy yn ei ddarllen.

Cof 211 / Tach /09 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w talu.

CGGC (Gwein. Tachwedd 2009)	£	34.79
CGGC (ychwanegiad i'r gyflogres – taliad oriau ychwanegol)	£	305.45
Yswiriant Zurich (digwyddiad cynnau goleuadau Nadolig)	£	63.00
Charlotte Leadbeater (addurniadau blychau Nadolig)	£	19.20
BDO Stoy (Archwiliad 2009)	£	488.75
Des Davies (treuliau teithio Hydref)	£	20.80
Des Davies (llusern ar gyfer Neuadd y Sir)	£	6.00
Nice Price News (system PA– arddangosiad tân gwyllt)	£	45.00
Nice Price News (bwyd a theithio i'r diwrnod hyfforddi)	£	77.20
Edward Thomas (treuliau teithio – cynhadledd)	£	15.20

Pasiwyd y rhain i'w talu. Cynigwyd gan y Cyng. Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

2. Archwiliad 2008/9. Dim ond un sylw a dderbyniwyd oddi wrth yr Archwilydd. Wrth gyflwyno gwobrau cymunedol yn y seremoni wobrwyo Flynyddol yn Ysgol Tregib, dylai'r Cyngor dalu'r sieciau i'r ysgol, ac yna byddai'r ysgol yn talu'r disgyblion. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy y dylid dilyn y drefn hon yn y dyfodol. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
3. Y Prosiect Drws Agored.
   Cytunwyd y bydd rhoddion o £50 yr un yn cael eu rhoi i Gapel Bedyddwyr Ebenezer a Chapel Newydd am eu parodrwydd i ganiatáu i'r capeli i fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod y diwrnod Agored.
4. Y gystadleuaeth ffenest Nadolig. Cyhoeddodd y Faeres yr enillwyr a'r gwobrau fel a ganlyn:-
   Gwobr gyntaf - Blodau Teilo £50
   Ail wobr - Cutting Edge £30
   Trydedd wobr - Wardrobe £20
   Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y gwobrau'n cael eu rhoi ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace.

Cof 212/ Tach / 09 Trawsgludiaeth a Phriffyrdd

Adroddodd y Cyng. Ieuan Gwyn bod goleuadau stryd newydd wedi cael eu codi ar hyd Heol y Garreg Las.
Roedd dŵr yn cronni ar yr heol o hen ffynnon o dan Fanc HSBC, ar waelod Stryd Caerfyrddin. Gallai hyn fod yn beryglus i gerbydau mewn tywydd rhewllyd. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod llythyr yn cael ei anfon i CSG ynglŷn â'r mater, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas.

Cof 213 / Tach / 09 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Adroddodd y Swyddog Technegol fod popeth wedi mynd yn hwylus wrth gynnau'r goleuadau Nadolig. Dywedodd bod angen amnewid dau o'r newidyddion. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod Mr Davies yn cael caniatâd i archebu ac amnewid y newidyddion. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
Mewn perthynas â Cof 201/Tach/09 a'r caniatâd a roddwyd i Prospect Construction i waredu'r malurion o ardal y nenfwd yn Neuadd y Sir. Dywedodd Mr Davies nad oedd y contractwr ar gael ar hyn o bryd.
Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn ddiwygiad, bod y contractwr yn cael ei newid i Cledwyn Moses. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 214 / Tach / 09 Trafod Polisi Cynllunio Strategol ar gyfer cynnal a chadw Neuadd y Sir

Adroddodd y Cyng. Hugh Towns am gyfarfod yr is-grŵp, a gyfarfu i drafod materion yn ymwneud â chynnal a chadw Neuadd y Sir. Argymhellwyd y dylai cynnal a chadw i gael ei ystyried fel un o dair egwyddor

a) Mae angen bod gan y Swyddog Technegol y gallu a'r caniatâd i ymateb i alwadau brys ei hun.
   Bydd angen cofnodi bod gan y Swyddog Technegol 'gyllideb gwario' o hyd at £200 ar gyfer digwyddiadau o'r fath.
b) Bydd angen sefydlu tair cronfa gyllidol, i gynnwys pob agwedd o'r gwaith yn Neuadd y Sir
   i) Cronfa cynnal a chadw ar gyfer gwaith brys
   ii) Cronfa Wrth Gefn Frys
   iii) Cronfa Ychwanegiadau ar gyfer prosiectau gwella yn Neuadd y Sir.
c) Argymhellir bod rhestr o gontractwyr cymeradwy yn cael ei pharatoi o dan wahanol benawdau
   1) Ar gyfer gwaith hyd at £1,000
   2) Ar gyfer gwaith hyd at £5,000
   3) Ar gyfer gwaith dros £5,000
   4) Categorïau o waith h.y. gwaith trydanol, adeiladu, gwresogi a phlymio.

Roedd y Cyng. Edward Thomas yn dymuno llongyfarch yr is-grŵp ar y modd diymdroi ac effeithiol yr oedd wedi paratoi'r adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Richard Wallace.
Cynigodd y Cyng. Hugh Towns bod yr egwyddorion yma'n cael eu mabwysiadu fel polisi'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 215 / Tach / 09 Adroddiad y Faeres.

Rhoddodd y Cyng. Charlotte Leadbeater restr o'r achlysuron a fynychodd ar ran y Cyngor yn ystod y mis. Fe wnaeth hi atgoffa'r Cynghorwyr o'r angen i fynychu CCB Cymdeithas y Cymunedau ar Ddydd Iau'r 26ain o Dachwedd 2009. Yn ogystal, rhoddodd y Cyng. Leadbeater adroddiad ar gyfarfod a fynychodd gyda Tyssul Evans, Cadeirydd CSG a Rhiannon Rowley o'r mudiad Trawsnewid Tref.

Cof 216 / Tach / 09 Adroddiadau Eraill

i) Adroddiad yr Is-grŵp tân gwyllt

Rhoddodd y Cyng. Colin Jenkins adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Dachwedd 2009. Fe wnaeth yr is-grŵp werthuso'r digwyddiad, ac roedd ganddynt argymhellion ar gyfer y digwyddiad y flwyddyn nesaf. Bu'r arddangosiad yn un tra llwyddiannus, a mynegodd y Faeres ei diolch ar ran y

Cyngor i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r digwyddiad. Fe wnaeth yr is-grŵp argymell bod llythyrau o ddiolch a rhoddion yn cael eu rhoi i'r canlynol, am eu cymorth yn ystod yr arddangosiad:-
Clwb Ffermwyr Ifanc Ffairfach £100 am helpu gyda'r gwaith stiwardio a glanhau.
Clwb y Ford Gron am helpu i stiwardio yn y maes parcio £75.
Ambiwlans Sant Ioan am fod yn bresennol yn ystod y digwyddiad. £50.
Clwb Criced Llandeilo am eu cymorth gyda'r paratoadau a'r gwaith glanhau. £20.
Llythyr o ddiolch i fynd i Gary Thomas am y system PA a cherddoriaeth.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod yr argymhellion yma'n cael eu derbyn.
Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roedd pawb o blaid.

ii).Is-grŵp goleuadau Nadolig.
Rhoddodd y Cyng. Edward Thomas adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24ain o Dachwedd 2009.
Cafwyd y digwyddiad cynnau goleuadau Nadolig mwyaf llwyddiannus eto ac roedd tyrfa lu yn bresennol. Roedd yna ddiffyg cyfathrebu rhwng cwmni teledu Boomerang a'r pwyllgor lleol, mewn perthynas ag amserau ffilmio rhaglen Seren Bethlehem, a allai fod wedi arwain at oblygiadau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.
Buasai'r is-grŵp yn argymell penodi MC a chael ardal llwyfannu ar gyfer yr adloniant.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod rhoddion yn cael eu rhoi i'r canlynol am eu cymorth yn ystod y digwyddiad:-
Clwb y Ford Gron £50 am helpu i stiwardio ac am ddarparu Siôn Corn.
Clwb Ffermwyr Ifanc Ffairfach am fod yn stiwardiaid £50
Cantorion Teilo £50
Band Arian Rhydaman £100
Llythyrau o ddiolch i fynd i Mr Geraint Price am yr arddangosiad tân gwyllt ac i'r SCCH Roger Anthony am reoli'r traffig.
Eiliwyd y cynigion yma gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

ii) Adroddiad Monitro Staff.
Adroddodd y Cyng. Edward Thomas am y cyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Staff ar y 3ydd o Dachwedd 2009. Roedd rhai o'r trefniadau cytunedig a oedd i'w gweithredu'n cynnwys gosod clesbyn a chlo ar y sêff, i storio dogfennau safonol y Cyngor, a bod yr holl anfonebau'n cael eu llungopïo i'w defnyddio fel cofnodion swyddfa. Roedd y Clerc wedi prynu gyriant caled allanol i drosglwyddo gwybodaeth i Gyfrifiadur y swyddfa.
Bydd rhoddi taliad i'r Clerc am dreuliau band llydan / ffôn yn cael ei gadarnhau yn y flwyddyn newydd.
Dywedodd y Cyng. Thomas y byddai'n trefnu i lanhau'r swyddfa, gyda chymorth Cynghorwyr eraill, cyn gynted ag y byddai'r Clerc yn derbyn cadarnhad oedd wrth Un Llais Cymru mewn perthynas â pha ddogfennau sy'n rhaid eu cadw fel deunydd archifol.

Cof 217/ Tach /09 Eitemau o fusnes y mae'r Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu y dylid eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Cyhoeddodd y Faeres y byddai'n cynnal Dawns Elusennol ar y 13eg o Fawrth 2010 yn y Neuadd Ddinesig, i godi arian i'w helusennau dewisedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35yh